Datganiad Cyfarfod Llawn – 2 Mai 2018

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Caffael Cyhoeddus

Rwy'n falch o rannu gyda chi heddiw fanylion y gwaith a wnaed hyd yn hyn gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â Chaffael Cyhoeddus yng Nghymru.

Cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd ag ymchwiliad yn dilyn cyhoeddi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) ar 30 Tachwedd 2017. Mae'r adroddiad yn dilyn adolygiad ehangach ar Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017. Yn ystod cyfnodau cynnar yr adolygiad hwnnw, mynegodd rhai cyrff cyhoeddus bryderon penodol am ddatblygiad a pherfformiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Ystyriodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol y materion hyn yn fwy manwl.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod ffigurau dangosol yn dangos bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwario £234 miliwn drwy fframweithiau a chontractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn 2016-17, yr oedd £222 miliwn ohono'n gysylltiedig â sefydliadau a oedd yn aelodau. Fodd bynnag, nid yw cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gymaint ag y rhagwelwyd, sy'n arwain at bryderon ynghylch ei gyllid, llai o arbedion nag a ragwelwyd – adroddwyd ynghylch £14.8 miliwn ar gyfer 2016-17 – a llawer o'i aelodau'n anfodlon.

Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio, ym mis Medi 2017, fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi nodi cynlluniau cychwynnol i roi ffocws o'r newydd ar rôl y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru. Datblygir y gwaith hwn mewn cydweithrediad â phartneriaid sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu uno Bwrdd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol.

Bu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ystod ein gwaith hyd yma mae wedi casglu tystiolaeth gan nifer o Awdurdodau Lleol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru.

O ystyried yr adolygiad parhaus o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru, sydd i fod i adrodd ar ei ganfyddiadau yn yr hydref, cytunwyd y byddai'n rhy gynnar i'r Pwyllgor adrodd ar ei ganfyddiadau ar hyn o bryd. Rydym wedi cytuno i ddychwelyd at y mater hwn unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau a byddwn yn ystyried canlyniadau'r adolygiad hwnnw maes o law.

Yn y cyfamser, rydym wedi nodi rhai materion yr oeddem am eu dwyn i sylw'r Cynulliad a sicrhau Aelodau y byddwn yn dychwelyd i'r mater pwysig hwn ar yr adeg fwyaf priodol.

Mae yna nifer o faterion y bydd angen i'r adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru eu hystyried o fewn amserlen sy'n ymddangos yn heriol.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod llawer i'w ennill drwy wneud y mwyaf o botensial gwariant caffael blynyddol y sector cyhoeddus, sy'n werth £6 biliwn, a thrwy drawsnewid caffael cyhoeddus yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n amlwg i'r Pwyllgor fod y potensial hwn ymhell o gael ei wireddu'n llawn am nifer o resymau a bod angen gwneud gwaith datblygu sylweddol a gwella consensws i symud ymlaen mewn ffordd gydweithredol ac ymateb i rai o'r pryderon a godwyd ynghylch ymagwedd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol hyd yn hyn.

O ystyried y manteision posibl, rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i lywio'r gwaith adolygu yn ddigonol. Rydym yn cydnabod y bydd penderfyniadau eraill y bydd angen eu gwneud wedyn ynghylch ariannu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu sefydlu'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid sy'n elfen hanfodol o ymgysylltu â lleisiau'r holl bartïon â diddordeb. Rydym yn falch bod cylch gorchwyl y grŵp yn ei gwneud yn glir y bydd disgwyl i aelodau sicrhau adborth gan gydweithwyr yn eu sectorau a'u sefydliadau priodol, gan gynnwys y sefydliadau hynny nad ydynt yn aelodau o bosib ar hyn o bryd.

Gan adeiladu ar argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, credwn ei bod yn bwysig cadarnhau'r rhesymau pam mae cyrff cyhoeddus yn dewis prynu nwyddau a gwasanaethau drwy drefniadau consortia eraill, neu drwy eu trefniadau lleol eu hunain, yn hytrach na thrwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Er enghraifft, o ran y gwariant o £60 miliwn trwy Wasanaethau Masnachol y Goron, mae'n bosibl y gallai hynny ddod o dan fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Rydym yn croesawu model ariannol a chymhelliant Llywodraethau Cymru ar gyfer y gwasanaeth a fydd yn ganolog i sicrhau cefnogaeth iddo yn y dyfodol, ond ymddengys hefyd fod materion tebyg gyda'r defnydd anghyson o offer ac adnoddau e-gaffael y mae'n werth ymchwilio iddynt ymhellach.

Rydym yn croesawu'r ffaith yr ymchwilir i'r materion hyn fel rhan o waith adolygu parhaus.

Roeddem yn falch o glywed bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol eisoes wedi gofyn i'w gwsmeriaid am sylwadau ar effeithiolrwydd ei fframweithiau ac wedi gweithio gyda'i fwrdd i hyrwyddo manteision defnyddio fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ac ailadroddus ac i annog aelodau i'w defnyddio. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi rhoi darlun cliriach inni ac mae eisoes wedi dylanwadu ar nifer o ddatblygiadau positif. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol bod dulliau rhanbarthol bellach yn cael eu harchwilio gyda'i aelodau, sydd wedi arwain at brosiect peilot lle mae fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cefnogi saith Awdurdod Lleol yn y De Orllewin wrth gyflawni eu gofynion ymgynghoriaeth peirianneg.

Yn olaf, roedd materion recriwtio a chadw a chapasiti caffael a gallu yn gyffredinol yng Nghymru yn destun pryder penodol inni. Mae cystadleuaeth sylweddol rhwng

cyrff cyhoeddus a'r sector preifat i gael gweithwyr proffesiynol. Er ein bod wedi clywed gan Swyddogion Llywodraeth Cymru bod y capasiti a'r gallu yn rhan greiddiol o gwmpas y broses adolygu, nodwyd nad oedd y materion hyn yn amlwg yn y cylch gorchwyl. Rydym hefyd yn nodi, o ddefnyddio datganiad polisi caffael Llywodraeth Cymru ei hunan, sy'n nodi meincnod o un gweithiwr caffael proffesiynol i bob £10 miliwn o wariant, yn nodi diffyg o tua 274 o aelodau staff caffael cymwys.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym fod materion o ran capasiti a gallu caffael cyffredinol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhan hanfodol o'r adolygiad, a'r hyn a fydd yn dilyn. Deallwn y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn trwy raglen gallu caffael newydd maes o law.

Wrth gwrs, byddwn yn monitro gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a byddwn yn aros am ganlyniadau'r adolygiad ar ôl iddo gael ei gwblhau. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd yn deillio o'r ddau adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, er ein bod yn cymryd seibiant yn ein gwaith, byddwn yn cadw golwg agos ar unrhyw ddatblygiadau.